# ARFARNU SWYDDI

## RHESTR O'R TERMAU A'R BYRFODDAU

Bu trafodaethau a gweithgareddau mewn perthynas ag Arfarnu Swyddi yn mynd rhagddynt yn y Cyngor ers nifer o flynyddoedd bellach. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall pwnc arfarnu swyddi gynnwys nifer o eiriau ac ymadroddion sy'n anghyfarwydd neu'n aneglur i aelodau o staff nad ydynt wedi bod yn rhan uniongyrchol o'r broses neu i'r rheiny sydd ond yn ddiweddar wedi dod i weithio i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn dymuno bod mor agored a thryloyw â phosibl wrth gyfathrebu mewn perthynas ag arfarnu swyddi ac mae am i'r broses gael ei deall. I'r perwyl hwn, mae'n ymrwymo i ddefnyddio iaith glir a syml ac i osgoi jargon a byrfoddau i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Fodd bynnag, lle mae'n rhaid defnyddio geiriau ac ymadroddion technegol, mae'r rhestr hon wedi cael ei pharatoi i gynorthwyo. Fodd bynnag, os byddwch yn parhau i fod yn ansicr neu'n aneglur ynghylch unrhyw agwedd ar yr ohebiaeth ynghylch arfarnu swyddi, holwch eich rheolwr, eich cynrychiolydd undeb llafur neu'r Tîm Arfarnu Swyddi.

| | |
|---|---|
| Apêl | Y broses sydd ar gael i staff apelio yn erbyn y sgôr a gafodd eu swydd o ganlyniad i'r ymarfer arfarnu swyddi. |
| Arfarnu Swyddi (AS) | Proses gyson a systematig ar gyfer diffinio maint neu ranc perthnasol swyddi mewn sefydliad |
| Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) | System ar gyfer penderfynu a yw'r strwythur tâl a graddfeydd newydd arfaethedig yn un nad yw'n gwahaniaethu (mewn termau cyffredinol, gall fod yn berthnasol i amryw o bolisïau, gweithdrefnau, ymarferion neu benderfyniadau'r Cyngor) |
| Confensiynau Lleol | Dehongliadau lleol o eiriad y cynllun arfarnu swyddi wedi eu cytuno ar y cyd rhwng y cyflogwr a'r undebau llafur ac wedi eu rhoi ar bapur fel y gellir eu defnyddio'n gyson ar draws yr holl arfarniadau |
| Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (CGC) | Corff cenedlaethol ac arno aelodau o ochr y cyflogwr a'r undebau llafur sy'n penderfynu ar gyflogau a thelerau cyflogaeth cyfran helaeth o weithwyr llywodraeth leol yn y Deyrnas Gyfunol |
| Cyfatebu Swydd | Proses lle mae swydd yn cael ei chyfatebu gyda graddfa drwy gymharu ffactorau gyda chyfres o swyddi meincnod |
| Cyfeirnod Swydd | Cyfeirnod unigryw a roddir i swydd sydd wedi cael ei harfarnu. Gall hon fod yn swydd unigryw neu'n swydd grŵp |
| Cylchoedd Coch | Nodi swyddi lle mae'r cyflog cyfredol yn uwch na'r cyflog a gynigir yn y strwythur cyflogau newydd |
| Cylchoedd Gwyn | Nodi swyddi lle mae'r cyflog cyfredol o fewn y raddfa a argymhellir yn y strwythur cyflogau newydd |
| Cylchoedd Gwyrdd | Nodi swyddi lle mae'r cyflog cyfredol yn is na'r cyflog y bwriedir ei dalu yn unol â'r strwythur cyflogau newydd |
| Cymathu | Y modd y mae swyddi a deilyddion y swyddi eu hunain yn cael eu symud o'r strwythur tâl cyfredol i'r strwythur tâl a graddfeydd diwygiedig |
| Cymharu Ffactorau (CFf) | Proses lle mae swyddi nad ydynt yn rhai meincnod yn cael eu cymharu |

| | |
|---|---|
| | yn erbyn swyddi perthnasol sydd wedi eu meincnodi, gan ddefnyddio gwybodaeth o ddisgrifiad swydd manwl (ond nid yr holiadur disgrifiad swydd llawn) ar sail ffactor wrth ffactor |
| Cynllun CGC | Cynllun arfarnu swyddi dadansoddol y cytunwyd arno gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol i'w ddefnyddio wrth arfarnu'r amrediad eang o swyddogaethau a swyddi mewn llywodraeth leol |
| Cytundeb Statws Sengl / Y Llyfr Gwyrdd | Roedd y Cytundeb Statws Sengl yn cysoni'r telerau ac amodau gwahanol a oedd gan weithwyr gweinyddol, proffesiynol, technegol a chlarcyddol a gweithwyr maniwal. Mae'r 'Llyfr Gwyrdd' yn cynnwys y telerau ac amodau cyflogaeth sy'n berthnasol i weithwyr llywodraeth leol sydd wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol gan gynnwys rhai telerau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac eraill y cytunir arnynt yn lleol rhwng y cyflogwr a chynrychiolwyr yr undeb llafur |
| Datblygiad cyflog | Mae datblygiad cyflog yn diffinio sut y bydd swydd yn symud o fewn y raddfa a bennwyd iddi o un pwynt ar y golofn i'r llall. Ar hyn o bryd, mae'r datblygiad hwn yn gysylltiedig â hyd gwasanaeth, h.y. yn gyffredinol, mae deilydd swydd yn symud i fyny un pwynt ar y golofn hyd oni fyddant wedi cyrraedd brig y raddfa |
| Deilydd Swydd | Aelod o staff sy'n gwneud swydd benodol mewn sefydliad |
| Diogelwch Cyflog | Lle mae swydd yn cael ei diogelu ar y cyflog presennol am gyfnod y cytunwyd arno ac yn unol â'r polisi y cytunwyd arno |
| Disgrifiad Swydd (DS) | Datganiad ysgrifenedig, ffeithiol ynghylch pwrpas swydd, y prif gyfrifoldebau a'r prif dasgau a gweithgareddau a gyflawnir mewn swydd, wedi ei ddylunio i gymryd i ystyriaeth y ffactorau yng Nghynllun Arfarnu Swyddi'r CGC |
| Ffactorau | Prif elfennau neu nodweddion amrediad o swyddi y gellir eu diffinio a'u hasesu. Caiff ffactorau wedyn eu rhannu'n lefelau yn unol â'r meini prawf y cytunwyd arnynt |
| Grŵp Swyddi | Swydd y mae nifer o swyddogion i gyd yn gwneud yr un gwaith ynddi |
| Gwirio / cymedroli | Proses o siecio canlyniadau (sgorau) yr ymarfer arfarnu swyddi a ddefnyddir i adnabod unrhyw anghysonderau |
| Holiadur Disgrifiad Swydd (HDS) | Holiadur manwl iawn ar ffurf safonol i gasglu gwybodaeth ynghylch swydd dan holl benawdau ffactorau'r cynllun fel y gellir cwblhau'r arfarniad swydd |
| Modelu Tâl | Cyfeirir ato'n aml fel 'pwyntiau'n arwain at wobrwyon'. Caiff y sgôr ar gyfer pob swydd ei llwytho i mewn i'r System Modelu Cyflog Cysylltiedig (gweler isod). Caiff pob swydd (sgôr ar gyfer y swydd) ei chysylltu â chyflog (pwynt ar y golofn gyflogau) ac ychwanegir amrywiadau a pharamedrau eraill i'r system. Mae'r system yn rhagamcan cost unrhyw strwythur cyflogau arfaethedig yn y dyfodol gan alluogi'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau i asesu a yw'n fforddiadwy ai peidio |
| Northgate | Enw system AD a Chyflogres integredig y Cyngor |
| Polisi Ailraddio | Mae'r Polisi Ailraddio yn cydnabod y bydd swyddi o bryd i'w gilydd yn newid ac y gall mwy neu lai o gyfrifoldebau gael effaith ar sgôr y swydd a'r raddfa gysylltiedig. Mae'r Polisi Ailraddio yn darparu proses i adolygu swyddi a effeithir. |
| Pwynt ar Golofn Gyflogau'r CGC | Pwyntiau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol lle mae cyflog cysylltiedig yn cael ei rannu'n raddfeydd |
| Pwysoliad | Dull o bwysoli sgôr pob un o'r 13 ffactor i adlewyrchu ei bwysigrwydd perthnasol |
| Sgôr/sgorio | Canlyniad y cynllun arfarnu swyddi dadansoddol (sgorio - y broses o |

| | |
|---|---|
| | ddod i ganlyniad). Caiff swyddi eu harfarnu yn unol â'r ffactorau a neilltuwyd iddynt gan adlewyrchu'r gwahanol alwadau a chyfrifoldebau o fewn y sefydliad (gweler 'ffactorau'). Mae pob un o'r 13 ffactor yn cynnwys nifer o lefelau factor. Mae sgôr yn cyfateb i bob lefel factor. Mae'r sgôr cyfun ar gyfer pob factor yn cynhyrchu sgôr gyffredinol ar gyfer y swydd |
| Swydd Meincnod | Swydd sydd wedi cael ei dewis fel un sy'n cynrychioli lefel benodol neu fath penodol o waith yn y Cyngor ac un y gellir cymharu arfarniadau swyddi eraill o fewn y Cyngor gyda hi i bwrpas sicrhau cysondeb |
| Swydd Unigryw | Lle mae swydd yn cael ei chategoreiddio fel un unigryw, dim ond un swydd o'i math sydd yn y sefydliad gyda un person yn ei chyflawni |
| System Modelu Tâl Cysylltiol | Rhaglen gyfrifiadurol a ddefnyddir i gynorthwyo gyda chreu strwythur graddfeydd newydd |
| Tâl Cyfartal | Ymadrodd yn tarddu o Ddeddf Tâl Cyfartal 1970 (Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y mae yn awr) yn rhoi i unigolion yr un hawliau o ran cyflog a thelerau ag unigolyn arall o'r rhyw arall sy'n gwneud yr un gwaith a lle mae dynion a merched yn gwneud gwaith tebyg neu waith o'r un gwerth |
| Trefn ranc | Perthynas hierarchaidd swyddi â'i gilydd |
| Ychwanegiad y Farchnad | Taliad trethadwy nad yw'n un parhaol sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac a roddir yn ychwanegol at y cyflog arferol a delir am y swydd. Mae'r taliad yn cydnabod cyfraddau cyflogau'r farchnad allanol ac fe'i telir i bwrpas recriwtio a chadw staff yn unol â'r polisi y cytunwyd arno |